

**Cofnodion Cyfarfod Cyngor Cymuned Llanedi a gynhaliwyd ar nos
Fercher Mai 4^{ydd} 2018 yn Ystafell Ddarllen yr Hendy**

Cofnod rhif 1 – Aelodau'n Bresennol

Cynghorwyr:

A Blackley
B Evans
B Thomas
G Thomas
B D Davies
S A Evans
L Griffiths
T Higgins
C Higgins
M Nicholas
S Lyle
C Davies
E Davies

Y Cadeirydd, y Cynghorydd A Blackley, oedd yn llywyddu ar y cyfarfod
--

Hefyd yn bresennol - y Clerc, David Davies, a'r Swyddog Datblygu Cymunedol, Sarah McColl-Dorion.

Cofnod rhif 2 - Ymddiheuriadau am Absenoldeb

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddiwrth y Cynghorydd A Evans a oedd yn dost, a'r Cynghorydd M Davies, gan fod rhaid iddo fod yn y gwaith.

Cofnod rhif 3 – Cyhoeddiadau'r Cadeirydd

Dywedodd y Cadeirydd, y Cynghorydd A Blackley ei fod wedi mynychu'r digwyddiadau canlynol ers y cyfarfod diwethaf.

- Hyfforddiant ynghylch arolygu parciau
- Mynychu Cinio'r Cadeirydd yn Llannon

Cofnod rhif 4 – Chris Kinnear

Roedd y Cyngor wedi croesawu Mr Kinnear o Glwb Rygbi yr Hendy i drafod y mater parcio ceir yn Heol y Parc, yr Hendy. Estynwyd gwahoddiad i sefydlu gweithgor, i gynnwys aelodau ward yr Hendy a chynrychiolwyr o'r clwb rygbi. Cytunwyd trefnu cyfarfod cyn gynted ag y bo modd.

Cofnod rhif 5 – Llofnodi'r Cofnodion – Cyfarfod y Cyngor, Ebrill 3^{ydd} 2018

Penderfynwyd derbyn cofnodion y cyfarfod uchod, a ddsbarthwyd yn flaenorol, fel y'u darllenwyd, eu cadarnhau a'u llofnodi fel cofnod cywir a chyfreithlon o'r materion a drafodwyd.

Rheswm – cadw at ofynion Deddf Llywodraeth Leol 1972, at12, para 41 (1) a (4) ac adran 99.

Cofnod rhif 6 – Materion yn Codi

Cofnod rhif 6 – Teras y Felin

Roedd y Cadeirydd wedi cadarnhau ei fod wedi wedi archebu offer chwarae newydd oddiwrth gwmni *Sunshine Playgrounds* i'w osod yn ardal chwarae Teras y Felin, Tycroes.

Cofnod rhif 8 – Coffáu Canmlwyddiant y Rhyfel Mawr

Dywedodd y Clerc y bydd cyfarfod nesaf y grŵp hwn yn cael ei gynnal ar Fai 15^{fed} am 7.00 yh

Cofnod rhif 13 – Lleoliad swyddfa'r SDC

Cofnodwyd bod pwyllgor Neuadd Tycroes wedi cytuno bod y SDC yn cael ei lleoli yn Neuadd Gymunedol Tycroes.

Cofnod rhif 7 – Parc Tycroes

Penderfynwyd bod angen cwblhau gwaith draenio yn y lleoliad hwn. Efallai y bydd yn bosibl gofyn i gwmni *Sunshine Playgrounds* i wneud y gwaith hyn pan fyddant yn dychwelyd i uwchraddio Ardal Chwarae Teras y Felin.

Cofnod rhif 8 – Pwyllgorau'r Cyngor

Cafodd y Cyngorwyr canlynol eu henwebu i'r pwyllgorau canlynol:

Pwyllgor Cyllid

Y Cadeirydd, a'r Cyngorwyr B Evans, A Evans, G Thomas a Ms S Lyle.

Pwyllgor Archwilio / Rheoli Risg

Y Cyngorwyr G Thomas, Mrs T Higgins, C Higgins ac E Davies.

Pwyllgor Personél

Y Cyngorwyr A Blackley, B Evans, M Nicholas, E Davies, Mrs B Thomas, C Higgins, S Evans a B D Davies.

Pwyllgor Apêl

Y Cyngorwyr A Evans, G Thomas, L Griffiths, T Higgins, S Lyle, NAC Davies, M Davies, Cyngorydd newydd.

Panel Adolygu Perfformiad
Y Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd

Llywodraethwyr Ysgol

Ysgol Gynradd Llanedi - y Cyngorydd E Davies
Ysgol Gynradd yr Hendy - y Cyngorydd A Evans
Ysgol Gynradd Tycroes - y Cyngorydd T Higgins

Cyrff Allanol

Grŵp yr Aman o Gyngorau Lleol – Y Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd
Un Llais Cymru Sir Gaerfyrddin - Y Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd
Cyfarfodydd y Cyngorau Mwy o Faint - Y Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd

Cofnod rhif 9 – Cyfethol Cyngorydd yn Ward Tycroes

Penderfynwyd cyfethol Mr Iain Barrett yn Gyngorydd i gynrychioli Ward Tycroes.

Cofnod rhif 10 – Rheoli'r Ystafell Ddarllen

Penderfynwyd gohirio ystyriaeth o'r mater hwn tan y cyfarfod nesaf.

Cofnod rhif 11 – Adroddiad y SDC

Derbyniodd y Cyngor adroddiad y SDC, a ddosbarthwyd yn flaenorol, a chafwyd trosolwg gan y SDC ar gynnwys yr adroddiad. Codwyd y materion canlynol:

- Bydd y SDC yn mynychu y cyfarfodydd ward ymhob ardal i drafod ymhellach trefnu'r ymgynghoriad Cynllun Bro.
- Nodwyd bod y ffaith bod y Cyngor Sir yn torri'r borfa ar Grîn Llanedi wedi gwella cyflwr yr ardal hon. Nodwyd na fydd y Cyngor Sir yn gwneud unrhyw waith draenio yn y lleoliad hwn.
- Nodwyd bod Cylch Cyfeillgarwch wedi'i sefydlu ym mhentref Llanedi, ac yn ymddangos yn llwyddiant. Roedd yr Aelodau wedi mynegi peth consyrn nad oedd y grŵp yn hysbysebu ei holl ddigwyddiadau yn ddwyieithog. Nodwyd bod y SDC wedi cyfleu teimladau cryf y Cyngor ynghylch cefnogi arwyddion dwyieithog yn y gymuned ond, gan fod y grŵp yn annibynnol o'r Cyngor, nid oes gan y SDC unrhyw reolaeth dros y ffordd y mae'r pwyllgor yn drafftio ei hysbysebion. Dywedodd y SDC fod yr holl hysbysebion ar wefan y grŵp yn ddwyieithog. Roedd yr Aelodau wedi datgan bod angen i'r Cyngor adolygu polisi Iaith Gymraeg pob mudiad cyn ystyried ceisiadau am gymorth ariannol yn y dyfodol.
- Cafwyd adroddiad ynghylch y cynnydd a wneir gyda'r adolygiad o'r Cynllun Datblygu Lleol, a nodwyd bod dyddiad cau yr ymgynghoriad wedi'i ymestyn o fis Mai i fis Awst.

Penderfynwyd nodi adroddiad y SDC.

Cofnod rhif 12 – Hyfforddiant y Côt Ymddygiad

Penderfynwyd bod y cynghorwyr canlynol yn mynychu'r hyfforddiant a drefnir gan Gyngor Sir Caerfyrddin:

Mehefin 14 ^{eg}	B D Davies
	B Thomas
	E Davies
	S Evans
	C Davies
	L Griffiths
Mehefin 22 ^{ain}	A Blackley

Cofnod rhif 13 – Prosiectau'r Cyngor

Roedd yr Aelodau wedi ystyried prosiectau a fyddai'n addas bod y Cyngor yn eu cwblhau yn ystod y flwyddyn ariannol gyfredol. **Penderfynwyd** gorffen y prosiectau canlynol:

- Plannu Cennyn Pedr – Cytunwyd prynu bylbiau cennyn pedr i ychwanegu at y rhai a blannwyd eisoes yn ystod yr Hydref. Roedd y Clerc wedi atgoffa'r Aelodau bod angen tynnu lluniau ar unwaith o'r ardaloedd hynny lle y mae angen ychwanegu at y planhigion sy'n bodoli, cyn bod y cennyn pedr presennol yn marw'n ôl.
- Hysbysfwrdd Talyclun – Nodwyd bod drws yr hysbysfwrdd hwn yn dal i fod ym meddiant y Clerc blaenorol. Roedd y Clerc wedi cytuno i gysylltu ag Owen Jones unwaith eto i weld os roedd wedi llwyddo i ddod o hyd i'r drws.
- Hysbysfyrddau – Nodwyd bod y mwyafrif o'r hysbysfyrddau sydd ym mherchnogaeth y Cyngor yn hen iawn, a bod angen tipyn o waith trwsio arnynt. **Penderfynwyd** bod y Clerc yn llunio rhestr o'r gwaith sydd angen ei wneud i'r hysbysfyrddau, a dod â chynigion ynghylch adnewyddu'r hysbysfyrddau hynny yr ystyrir nad oes modd eu hatgyweirio gerbron y Cyngor.
- Swyddfa yn Nhycroes – Cytunwyd bwrw ymlaen i brynu desg, argraffydd a chwprdd ffeilio at ddefnydd y SDC yn y swyddfa newydd yn Nhycroes. Soniwyd bod y signal ffôn symudol yn wan yn y lleoliad hwn, felly byddai'n briodol gosod llinell ffôn er mwyn cysylltu â'r rhyngwrdd.
- Cysgodfan bysiau – Cytunwyd bod y Cyngor yn prynu cysgodfan fws i'w lleoli yn Nhycroes.
- Bocs BlodauTycroes

- Plannu Blodau Gwyllt – Cytunwyd bwrw ymlaen i blannu blodau gwyllt yn yr un lleoliad a ddefnyddiwyd y llynedd.
- Tŵr Cloc Tycoes – Cytunwyd trefnu i ailbaentio gwaith coed tŵr y cloc.

Cofnod rhif 14 – Cyfrifoldebau Arbennig

Roedd yr Aelodau wedi ystyried y cyngor a ddarparwyd gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol parthed â gwneud taliadau i gynghorwyr. Cytunwyd dyrannu'r lwfansau canlynol i'r Cynghorwyr:

Onibai ei fod/ei bod yn gwrthod y taliad, bydd pob Cynghorydd yn derbyn tâl o £150. **Penderfynwyd** gohirio ystyried taliadau i'r Cadeirydd, i'r Is-Gadeirydd ac i gynghorwyr â chyfrifoldebau arbennig.

Cofnod rhif 15 – Atal y Rheolau Sefydlog

Penderfynwyd atal y rheolau sefydlog fel bod modd parhau i ystyried busnes y Cyngor ar ôl 9.00 yh

Cofnod rhif 16 – Rheolau Sefydlog / Rheoliadau Ariannol

Penderfynwyd gohirio ystyriaeth o'r mater hwn nes ei bod ni'n bosibl trefnu cyfarfod arall o'r is-bwyllgor.

Cofnod rhif 17 – Cynllunio Defnydd Tir – Deddf Cynllunio Gwlad a Thref

Dywedodd y Cynghorydd B Evans ei fod wedi mynychu cyfarfod o'r pwyllgor cynllunio i leisio'i wrthwynebiad i gais cynllunio am safle i deithwyr. Yn anffodus, yn yr achos hwn, cafodd y cais ei gymeradwyo.

(a) Datblygiadau Arfaethedig

Penderfynwyd cofnodi'r ceisiadau canlynol yn y cofnodion:

Rheswm: Nid oedd yr aelodau wedi gofyn i'r arsylwadau/gwrthwynebiadau mewn perthynas â'r datblygiadau arfaethedig gael eu cyfleu i Awdurdod Cynllunio'r Sir.

S/37131 Estyniad to fflat i gefnlun y llawr daear ac estyniad llawr cyntaf uwchben y garej yn 9 Clos Benallt Fawr, Fforest, Abertawe. Mr James Poole.

(b) Hysbysiadau o Benderfyniadau a Gymeradwy-wyd

Penderfynwyd nodi'r ceisiadau canlynol i'r cofnodion.

Ni ddaeth unrhyw rai i law.

(c) Hysbysiadau o Benderfyniadau a Wrthodwyd

Ni ddaeth unrhyw rai i law.

(ch) Hysbysiadau o Benderfyniadau a Wrthodwyd

Ni ddaeth unrhyw rai i law.

Cofnod rhif 18 – Cyrff Allanol

Cafwyd adroddiad gan y Cynghorydd T Higgins ynghylch y materion canlynol:

- Mae'r rhwystrau diogelwch yn Ardal Chwarae Teras y Felin wedi cael eu hatgyweirio.
- Bydd ffens yn Ardal Chwarae Coopers yn cael ei hatgyweirio yn y dyfodol agos.

Cafwyd yr adroddiad canlynol gan y Cynghorydd G Thomas:

- Mae'r penderfyniad wedi'i wneud bod llinellau melyn dwbl yn cael eu gosod yn Heol y Park, yr Hendy, i ddelio â pharcio anaddas.
- Bydd cyfarfod yn cael ei drefnu yn Nhalyclun i drafod ansawdd y ffordd a'r pafinau ar yr ystâd.

Cofnod rhif 19 - Gohebiaeth Gyffredinol

Penderfynwyd nodi'r ohebiaeth ganlynol i'r cofnodion: -

Roedd y Cyngor wedi derbyn gohebiaeth oddiwrth Nia Griffiths, AS, ynghylch y problemau ynghlyn â pharcio yn Heol y Park. **Penderfynwyd** gohirio ystyriaeth o'r mater hwn tan y cyfarfod nesaf.

Awdur	Pwnc
Wicksteed Leisure	Taflen
Archwilydd Cyffredinol Cymru	Hysbyiad o Archwiliad
Urdd	Gwahoddiad i gyfarfod cyhoeddus
Martin Murray	Casglu Sbwriel
Martin Murray	Hawliau Tramwy Cyhoeddus
Cylch Meithrin Ysgol y Hendy	Llythyr o ddiolch am gyfraniad

Daeth busnes y Cyngor i ben am 9.30 yh

Llofnod Dyddiad
Cadeirydd

